Cyllid & Tollau EM

# Nodiadau: Gwybodaeth ychwanegol

Blwyddyn dreth 6 Ebrill 2022 i 5 Ebrill 2023 (2022-23)

## Defnyddiwch y nodiadau hyn i'ch helpu i lenwi tudalennau Gwybodaeth ychwanegol eich Ffurflen Dreth

Mae'r nodiadau hyn ar gyfer mathau llai cyffredin o incwm, didyniadau a rhyddhad treth. Efallai y bydd angen taflenni cymorth arnoch i lenwi'r tudalennau 'Gwybodaeth ychwanegol'. Mae manylion pellach ar gael ar ddiwedd y cwestiwn perthnasol.

## Incwm arall o'r DU

### Llog sy'n deillio o warantau gilt a gwarantau eraill yn y DU, gwarantau â chryn ddisgownt ac elw o incwm cronedig

Mae hyn yn cynnwys llog cuddiedig a llog o:

- stociau'r llywodraeth, gwarantau gilt neu giltiau
- bondiau, nodion benthyciadau neu warantau tebyg a gyhoeddir gan gwmnïau'r DU, awdurdodau lleol neu gyrff yn y DU
- benthyciadau cymar i gymar a wnaed gan ddefnyddio platfform yn y DU

Nid yw'n cynnwys llog a gewch o ISA neu PEP. Dylech nodi eich cyfran chi yn unig o unrhyw incwm ar y cyd ar y tudalennau 'Gwybodaeth ychwanegol'.

Mae llog cuddiedig yn swm a gewch sy'n debyg i log ond nas trethir yn yr un modd â llog arall. Bydd ond yn gymwys i drefniadau ariannol a wnewch ar ôl 6 Ebrill 2022. Gall eich ymgynghorydd treth roi gwybod i chi beth i'w gynnwys ym mlwch 3.

Os ydych am hawlio rhyddhad rhag drwg ddyledion ar fenthyciad cymar i gymar, didynnwch y ddyled ddrwg o'r llog a gafwyd gennych, a rhowch y ffigur llog ar ôl y didyniad ym mlwch 3.

Os byddwch yn buddsoddi mewn gwarantau â chryn ddisgownt, rhowch y gwahaniaeth rhwng yr hyn a daloch am y bond a'r hyn a adenilloch neu a gawsoch wrth ei werthu ym mlwch 3.

Os ydych yn trosglwyddo gwarantau incwm cronedig neu os trosglwyddwyd gwarantau i chi, llenwch flychau 1 i 3.

> I gael rhagor o wybodaeth am ryddhad dyled drwg cymar i gymar, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'Peer-to-Peer'.
>
> I gael rhagor o wybodaeth am Gynllun Incwm Cronedig, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS343'.

**Blwch 1 Llog o giltiau ac ati ar ôl didynnu treth**

Rhowch gyfanswm y llog a gafwyd o'ch gwarantau gilt ac incwm cronedig pan fo treth wedi ei didynnu ym mlwch 1.

Os nad oedd treth wedi ei didynnu o'r llog, rhowch y swm hwn ym mlwch 3. Peidiwch â llenwi blychau 1 a 2.

**Blwch 2 Treth a ddidynnwyd**

Rhowch y dreth a ddidynnwyd o'r llog ym mlwch 2.

**Blwch 3 Swm gros cyn didynnu treth**

Ychwanegwch flychau 1 a 2 at ei gilydd a rhowch y cyfanswm ym mlwch 3. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys gwarantau â chryn ddisgownt a adenillwch neu a werthwch.

### Enillion ar bolisïau yswiriant bywyd, polisïau adbrynu cyfalaf a chytundebau blwydd-daliadau bywyd

Rhaid i yswirwyr yn y DU roi tystysgrif 'digwyddiad trethadwy' i chi os gwyddant eich bod wedi gwneud enillion ar:

- polisi yswiriant bywyd
- blwydd-dal bywyd
- polisi adbryniant cyfalaf

Defnyddiwch y manylion ar eich tystysgrif i lenwi blychau 4 i 11. Os yw eich yswiriwr wedi anfon mwy nag un dystysgrif atoch ar gyfer yr un enillion, defnyddiwch y ffigurau ar gyfer buddiannau diwygiedig neu enillion ar y digwyddiad trethadwy ar y dystysgrif hwyrach. Bydd angen Taflen Gymorth 320, *'Gains on UK life insurance policies'*, arnoch i'ch helpu i lenwi blychau 4 i 7:

- os oes gennych bolisi cymhwyso rhyddhad cyfyngedig
- os nad ydych wedi bod yn byw yn y DU yn ystod y cyfnod rydych wedi bod yn berchennog llesiannol y polisi
- os ydych yn ystyried yr ennill i fod yn hollol anghymesur ac rydych am wneud cais i CThEF yn gofyn i'r ennill gael ei ail-gyfrifo

Os na chawsoch dystysgrif, bydd angen i chi gysylltu â'ch yswiriwr, ymddiriedolwr, enwebai neu fenthyciwr.

> I gael rhagor o wybodaeth am enillion yswiriant bywyd, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS320'.

**Blwch 4 Enillion polisi neu gytundeb y DU pan ystyrir bod treth wedi'i thalu ar yr enillion**

Os ydych wedi talu treth ar yr enillion, nodwch swm yr enillion ym mlwch 4. Os ydych yn berchen y polisi neu'r blwydd-dal ar y cyd, rhowch eich rhan chi yn unig o'r enillion yn y blwch hwn.

Os oes gennych enillion o bolisïau lluosog gwahanol, rhaid i chi roi'r wybodaeth ganlynol ym mlwch 19 ar dudalen TR 7 eich Ffurflen Dreth:

- manylion pob polisi unigol
- swm yr enillion ar gyfer pob polisi
- nifer y blynyddoedd yr ydych wedi dal y polisi
- y dreth a dalwyd ar bob ennill

Os didynnwyd treth o'ch polisïau lluosog, ychwanegwch nhw at ei gilydd a rhowch gyfanswm yr enillion ym mlwch 4.

Os na ddidynnwyd treth o'ch polisiau lluosog, rhowch gyfanswm yr enillion ym mlwch 6.

Peidiwch a rhoi unrhyw ffigurau ym mlwch 5 neu 7.

### Blwch 5  Nifer y blynyddoedd y bu'r polisi mewn bodolaeth neu ers yr enillion diwethaf

Os ydych wedi rhoi ffigur ym mlwch 4, oni bai bod y ffigur yn gyfanswm enillion lluosog rhowch 'nifer y blynyddoedd' fel y nodir ar y dystysgrif digwyddiad trethadwy a gawsoch gan eich yswiriwr ym mlwch 5.

Os nad ydych wedi bod yn byw yn y DU yn ystod y cyfnod rydych wedi bod yn berchennog llesiannol y polisi, cyfeiriwch at IPTM3830 y Llawlyfr Trethu Deiliaid Polisïau Yswiriant.
Ewch i www.gov.uk a chwilio am 'Insurance Policyholder Taxation Manual'.

### Blwch 6  Enillion polisi neu gytundeb y DU pan na ystyrir bod treth wedi'i thalu ar yr enillion

Os nad ydych wedi talu treth ar yr enillion, nodwch swm yr enillion ym mlwch 6.

### Blwch 7  Nifer y blynyddoedd y bu'r polisi mewn bodolaeth neu ers yr enillion diwethaf

Os ydych wedi rhoi ffigur ym mlwch 6, oni bai bod y ffigur yn gyfanswm enillion lluosog rhowch 'nifer y blynyddoedd' fel y nodir ar y dystysgrif digwyddiad trethadwy a gawsoch gan eich yswiriwr ym mlwch 7.

Os nad ydych wedi bod yn byw yn y DU yn ystod y cyfnod rydych wedi bod yn berchennog llesiannol y polisi, cyfeiriwch at IPTM3830 y Llawlyfr Trethu Deiliaid Polisïau Yswiriant.
Ewch i www.gov.uk a chwilio am 'Insurance Policyholder Taxation Manual'.

### Blychau 8 i 10

Bydd eich cwmni yswiriant bywyd neu reolwr ISA yn rhoi tystysgrif 'digwyddiad trethadwy' os byddant yn diddymu eich ISA neu'ch polisi bywyd. Defnyddiwch hon i lenwi blychau 8 i 10.

Os cawsoch enillion lluosog o bolisiau a ddelir mewn ISAs a wnaed yn ddi-rym, ychwanegwch nhw at ei gilydd a rhowch gyfanswm yr ennill ym mlwch 8 a swm cyfansymiol y dreth a dynnwyd ym mlwch 10.

Peidiwch a rhoi unrhyw ffigur ym mlwch 9.

Rhowch yr wybodaeth ganlynol yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', sef blwch 19 ar dudalen TR7 eich Ffurflen Dreth:

- manylion pob polisi unigol
- swm pob ennill unigol
- swm y dreth a dynnwyd oddi ar bob ennill
- 'nifer y blynyddoedd' perthnasol ar gyfer pob ennill, fel y nodwyd ar y dystysgrif digwyddiad trethadwy

### Blwch 11  Rhyddhad am ddiffyg

Efallai y gallech gael y rhyddhad hwn:

- os daeth eich polisi neu flwydd-dal i ben rhwng 6 Ebrill 2022 a 5 Ebrill 2023
- os gwnaethoch enillion ar y polisi neu'r blwydd-dal mewn blwyddyn dreth gynharach
- os talwch dreth ar y gyfradd uwch

> I gael help wrth gyfrifo rhyddhad am ddiffyg ewch i www.gov.uk/hmrc-internal-manuals/insurance-policyholder-taxation-manual/iptm3860

## Difidendau stoc, dyroddiadau bonws o warantau a chyfranddaliadau adbryn

### Blwch 12  Difidendau stoc

Os cawsoch gyfranddaliadau yn lle difidendau ar ffurf arian, mae'n golygu y cawsoch ddifidend stoc. Bydd y cwmni yn rhoi datganiad difidend i chi sy'n dangos 'y swm priodol mewn arian parod', neu'r 'cyfwerth mewn arian parod o gyfalaf cyfranddaliadau', a dylech nodi'r ffigur hwn ym mlwch 12.

### Blwch 13  Dyroddiadau bonws o warantau a chyfranddaliadau adbryn

Os cawsoch ddyroddiad bonws o warantau neu gyfranddaliadau adbryn, rhowch swm y dosbarthiad a gafwyd ym mlwch 13.

### Blwch 13.1  Benthyciadau gan gwmnïau caeedig a ddilëwyd neu a ryddhawyd

Os cewch fenthyciad neu flaenswm gan gwmni caeedig fel cyfranogwr, ac mae'r cwmni'n rhyddhau neu'n diddymu'r benthyciad neu'r blaenswm, rydym yn ei drin fel eich incwm. Rhowch swm y benthyciad neu'r blaenswm ym mlwch 13.1.

Mae blychau 12, 13 a 13.1 yn gymwys ar gyfer y lwfans difidend. Nid ydych yn talu treth ar y £2,000 cyntaf o'r difidendau a gafwyd, ond dylech gynnwys yr incwm i gyd, hyd yn oed os yw'n llai na £2,000, gan y gall effeithio ar gyfradd y dreth rydych yn ei thalu ar ddifidendau a gewch sy'n fwy na'r lwfans, sef £2,000.

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/treth-ar-ddifidendau

## Derbyniadau busnes a drethwyd fel incwm o flwyddyn gynharach

### Blychau 14 a 15

Os cawsoch unrhyw dderbyniadau busnes y mae angen eu trethu fel incwm o flwyddyn gynharach ar ôl i'ch busnes ddod i ben, rhowch y cyfanswm ym mlwch 14. Rhowch y flwyddyn dreth honno ym mlwch 15.

## Cynlluniau cyfranddaliadau a chyfandaliadau, iawndal a didyniadau, incwm ôl-gyflogaeth penodol a thaliadau breindal patent

### Blwch 1 Cynlluniau cyfranddaliadau – y swm trethadwy

Bydd angen i chi gyfrifo'r swm trethadwy wrth arfer opsiynau cyfranddaliadau, ar ddyddiad arfer yr opsiwn, neu ar gyfranddaliadau a gewch am ddim neu'n rhad, neu o warantau sy'n gysylltiedig â gwarantau gan eich cyflogwr. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cyfranddaliadau mewn cwmni
- dyledebion, stoc benthyciad, bondiau, gwarantau a futures
- cytundebau yswiriant
- tystysgrifau sy'n rhoi hawliau dros warantau a ddelir gan eraill

Llenwch flwch 1 dim ond:

- os nad yw eich cyflogwr wedi trethu'r cyfranddaliadau'n llawn
- os yw eich cyflogwr wedi defnyddio prisiad is nag y dylai i gyfrifo'r swm trethadwy – dim ond y swm na chafodd ei drethu y dylid ei nodi ym mlwch 1

Mae Taflen Gymorth 305, *'Employment-related shares and securities',* yn rhoi mwy o wybodaeth am:

- Cynlluniau Annog Perchnogaeth o Gyfranddaliadau Atodlen 2 â mantais dreth, Cynlluniau Opsiwn Cyfranddaliadau Cwmni Atodlen 4 a chynlluniau Cynilo Wrth Ennill Atodlen 3
- Cymhellion Rheoli Mentrau
- Gwarantau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth a gwarantau opsiynau

Mae taflenni gwaith yn Nhaflen Gymorth 305 hefyd sy'n gallu eich helpu i gyfrifo'r swm trethadwy i'w roi ym mlwch 1.

> ℹ I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS305'.

### Blwch 3 Cyfandaliadau trethadwy ac incwm penodol ar ôl i'ch swydd ddod i ben

Mae hyn yn cynnwys taliadau mawr (fel arfer mewn arian parod ac eithrio pensiynau) neu fuddiannau oddi wrth eich cyflogwr neu gyn gyflogwr.

Mae taliadau yn cynnwys y canlynol:

- cyflog
- tâl gwyliau
- bonysau
- taliadau yn lle rhybudd diswyddo
- iawndal pan fydd telerau eich cyflogaeth yn newid
- taliadau a wnaed er mwyn gwarantu'ch ymddygiad yn y dyfodol ('cyfamod cyfyngu'), er enghraifft, cytuno i beidio â chystadlu gyda'ch cyflogwr yn y dyfodol

Ar gyfer incwm sydd â threfniadau trydydd parti neu sy'n agored i reolau 'tâl cuddiedig', siaradwch â'ch ymgynghorydd treth. Bydd yn rhoi gwybod i chi ba ffigur i'w roi ym mlwch 3.

> ℹ Er mwyn eich helpu i gyfrifo beth i'w roi ym mlychau 3 i 10, defnyddiwch daflen waith 2 yn Nhaflen Gymorth, *'Other taxable income'*. Ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS325'.

### Blwch 4 Cyfandaliadau neu fudd-daliadau a gafwyd o Gynllun Budd-daliadau Ymddeol a Ariannwyd gan y Cyflogwr ac eithrio pensiynau

Rhowch gyfanswm unrhyw symiau a gafwyd o Gynllun Budd-daliadau Ymddeol a Ariannwyd gan Gyflogwr (EFRBS) ym mlwch 4. Os yw'n cynnwys taliad penodol am salwch neu anaf, rhowch y swm hwnnw ym mlwch 8.

Peidiwch â chynnwys cyfandaliadau o gynlluniau tramor sy'n drethadwy fel incwm o bensiwn. Dylid cynnwys y rhain yn yr adran 'Pensiynau, budd-daliadau nawdd cymdeithasol a breindaliadau tramor' ar dudalennau F2 ac F3 y tudalennau Tramor (SA106).

### Blwch 5 Cyfandaliadau diswyddo a chyfandaliadau a thaliadau iawndal eraill

Mae hyn yn cynnwys:

- tâl diswyddo
- cyflog rhybudd ôl-gyflogaeth
- iawndal am golli swydd

Rhowch swm y cyflog rhybudd ôl-gyflogaeth trethadwy a swm balans y taliad sydd dros y terfyn eithriad o £30,000. Peidiwch â chynnwys unrhyw swm o'r taliad nad yw'n drethadwy, naill ai oherwydd ei fod wedi'i eithrio'n benodol, neu oherwydd ei fod yn drethadwy dramor ac nid yn y DU. Dylid rhoi'r swm hyd at y terfyn o £30,000 ym mlwch 9.

### Blychau 6 a 7

Os yw eich cyflogwr wedi didynnu treth o symiau a fyddai fel arfer yn mynd ym mlychau 3 i 5, ac nid ydych wedi cynnwys hynny ym mlwch 2 ar eich tudalen 'Cyflogaeth', rhowch y dreth a ddidynnwyd ym mlwch 6. Rhowch 'X' ym mlwch 7 os ydych wedi cynnwys y dreth honno ym mlwch 2 ar eich tudalen 'Cyflogaeth'.

### Blwch 8  Eithriadau ar gyfer symiau a nodwyd ym mlwch 4

Mae hyn yn cynnwys taliadau ar gyfer:

- salwch neu anabledd yn ystod gwasanaeth
- marwolaeth trwy ddamwain yn ystod gwasanaeth
- budd-daliadau dan bolisi bywyd perthnasol
- budd-daliadau a eithrir drwy reoliad

> I gael rhagor o wybodaeth am bolisïau yswiriant bywyd, ewch i www.gov.uk/hmrc-internal-manuals/insurance-policyholder-taxation-manual
>
> I gael gwybodaeth am fudd-daliadau a eithrir drwy reoliad, ewch i www.gov.uk/hmrc-internal-manuals/employment-income-manual/eim15021

### Blwch 9  Eithriad o hyd at £30,000 ar gyfer iawndal a chyfandaliad

Os cawsoch daliad diswyddo o hyd at £30,000, ar ôl i unrhyw gyflogaeth rhybudd ôl-gyflogaeth gael ei didynnu, ac yn erbyn yr hynny y mae'ch cyflogwr wedi caniatáu eithriad arno, rhowch y cyfanswm a gawsoch ym mlwch 9.

Os yw'ch taliad ar ôl i unrhyw gyflogaeth rhybudd ôl-gyflogaeth gael ei didynnu, yn fwy na'r terfyn o £30,000, bydd yn rhaid i chi dalu treth ar y gwahaniaeth. Rhowch y swm sydd dros £30,000 ym mlwch 5, unrhyw dreth a ddidynnwyd ym mlwch 6 a'r terfyn o £30,000 ym mlwch 9.

> **Enghraifft**
>
> Mae Cai yn cael tâl diswyddo o £40,000. Mae £2,000 o'r swm yn gyflog rhybudd ôl-gyflogaeth. Mae'n talu treth ar y gyfradd sylfaenol o 20% felly mae'n llenwi'r blychau ar dudalen Ai 2 fel a ganlyn:
>
> - £10,000 (£2,000 + £8,000) ym mlwch 5
> - £2,000 (£2,000 x 20% + £8,000 x 20%) ym mlwch 6
> - £30,000 ym mlwch 9

### Blwch 10  Didyniad anabledd a gwasanaeth dramor

Gallwch wneud cais am eithriad ar gyfer taliadau penodol a gawsoch ar gyfer nam corfforol neu feddyliol, pan ddaeth eich cyflogaeth i ben neu pan wnaeth eich telerau newid.

Dylech hefyd gynnwys ym mlwch 10 unrhyw swm o gyflog rhybudd ôl-gyflogaeth nad yw'n drethadwy yn y DU oherwydd ei fod yn drethadwy dramor.

### Blwch 11  Didyniad Enillion Morwyr

Gallwch fod yn gymwys i gael y didyniad os ydych yn cyflawni pob un o'ch dyletswyddau, neu'r mwyafrif ohonynt, ar long. Nid ydych yn gymwys os ydych yn gweithio ar osodiad ar y môr a ddefnyddir yn y diwydiant nwy ac olew.

Rhaid i chi hefyd gynnwys enwau'r holl longau y buoch yn gweithio arnynt o o 6 Ebrill 2022 i 5 Ebrill 2023 ym mlwch 19 ar dudalen TR 7 eich Ffurflen Dreth.

Bydd angen Taflen Gymorth 205, *'Seafarers Earnings Deduction'*, arnoch i gyfrifo eich cyfnod cymwys. Rhowch swm yr enillion sy'n gymwys ar gyfer didyniad ym mlwch 11.

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS205'.

### Blwch 12  Enillion tramor nad ydynt yn drethadwy yn y DU

Bydd angen Taflen Gymorth 211, *'Employment – residence and domicile issues'*, i gyfrifo'r swm i'w roi ym mlwch 12:

- os ydych, os byddwch neu os buoch yn ddibreswyl neu'n hawlio cael eich trin am flwyddyn ranedig
- os na fuoch yn preswylio fel arfer neu nid oedd eich domisil yn y DU
- os ydych, neu os na fyddwch yn preswylio fel arfer neu fod eich domisil yn y DU ac mae rheolau sail trosglwyddo yn gymwys i rai neu i'ch holl enillion
- os ydych yn cael incwm mewn gwlad dramor nad oeddech yn gallu ei drosglwyddo i'r DU oherwydd rheolau cyfnewid neu oherwydd prinder arian cyfred yn y wlad honno

Peidiwch â chynnwys unrhyw swm o gyflog rhybudd ôl-gyflogaeth. Efallai y bydd angen i chi lenwi'r tudalennau 'Preswylfa, sail trosglwyddo ac ati' (SA109) o'ch Ffurflen Dreth hefyd.

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS211'.

### Blwch 13  Treth dramor pan nas hawlir rhyddhad credyd treth

Os ydych wedi talu treth dramor ar incwm eich cyflogaeth, ac nid ydych yn hawlio rhyddhad credyd treth, nodwch y swm mewn punnoedd y DU ym mlwch 13.

### Blwch 14  Cyfraniadau cyflogwr sydd wedi eu heithrio i gynllun pensiwn tramor

Llenwch flwch 14 os yw eich cyflogwr yn cyfrannu tuag at eich cynllun pensiwn tramor ac nid ydych yn talu treth ar y cyfraniadau hyn. Efallai cewch ddatganiad blynyddol yn dangos yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch. Os nad ydych yn cael un, cysylltwch â'ch darparwr pensiwn.

Os yw eich cynllun yn gynllun prynu arian, rhowch gyfraniad blynyddol eich cyflogwr ym mlwch 14. Os yw'n gynllun buddiannau diffiniedig rhowch y cynnydd yng ngwerth eich hawliau cyfandaliad (arian parod) **plws** 16 gwaith y cynnydd yn eich pensiwn blynyddol a addawyd, llai cyfraniadau personol i'r cynllun.

**Enghraifft**

Mae eich datganiad blynyddol yn dangos bod eich hawliau cyfandaliad arian parod wedi cynyddu gan £1,000, cynyddodd eich pensiwn blynyddol gan £3,000 a chyfrannwyd £1,500 gennych i'r cynllun.

Y swm a roddwch ym mlwch 14 yw £47,500 (£1,000 + (16 x £3,000) - £1,500).

Rhowch wybod i ni, ym mlwch 19 are dudalen TR 7 eich Ffurflen Dreth, enw eich cynllun pensiwn a pha bynnag un o'r canlynol sy'n berthnasol i'ch cyfraniadau cyflogwr:

- eich cyfeirnod QOPS Rhyddhad Aelod Mudol
- eich cyfeirnod SF74 rhyddhad trosiannol cyfatebol
- yr erthygl a chyfamod perthnasol o'r Cytundeb Trethiant Dwbl. Am fanylion yr wybodaeth sydd ei hangen, darllenwch PTM111700

I gael rhagor o wybodaeth am y rhyddhad, ewch i www.gov.uk/hmrc-internal-manuals/pensions-tax-manual/ptm111000

I gael rhagor o wybodaeth am y mathau o gynlluniau pensiwn, ewch i www.gov.uk/pension-types

### Blwch 15 Taliadau breindal patent y DU a wnaed

Rhaid i chi ddal treth o 20% yn ôl o swm taliadau breindal patent rydych yn eu talu. Mae'r dreth a ddelir yn ôl yn cael ei thalu fel rhan o'r dreth sy'n ddyledus ar eich incwm. Rhowch y swm a daloch fel taliadau breindal patent ym mlwch 15. Peidiwch â chynnwys y swm a ddaliwyd yn ôl gennych ar gyfer treth.

## Rhyddhad treth arall

### Blwch 1 Tanysgrifiadau ar gyfer cyfranddaliadau Ymddiriedolaeth Cyfalaf Mentro

Gallwch hawlio rhyddhad treth os gwnaethoch danysgrifio am gyfranddaliadau Ymddiriedolaethau Cyfalaf Mentro ac roeddech yn 18 neu'n hŷn pan gawsant eu dyroddi. Rhowch y swm a danysgrifiwyd gennych, hyd at £200,000, ym mlwch 1, a manylion ar gyfer pob buddsoddiad ym mlwch 19 ar dudalen TR 7 eich Ffurflen Dreth.

### Blwch 2 Tanysgrifiadau ar gyfer cyfranddaliadau o dan y Cynllun Buddsoddiad Menter

Gallwch hawlio rhyddhad treth os cawsoch:

- ffurflen EIS3, '*Enterprise Investment Scheme Certificate and claim to relief*', gan y cwmni y buddsoddoch ynddo
- ffurflen EIS5, '*Enterprise Investment Scheme*', gan reolwr cronfa fuddsoddi gymeradwy

Rhowch swm y rhyddhad a hawlir gennych, hyd at £2 miliwn, ym mlwch 2. Rhaid i unrhyw swm sydd dros £1 miliwn fod ar gyfer cyfranddaliadau a anfonwyd gan gwmni sy'n delio'n ddwys â gwybodaeth. Rhaid i chi hefyd roi manylion i ni am bob buddsoddiad ym mlwch 19 ar dudalen TR 7 eich Ffurflen Dreth.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS341'.

### Blwch 3 Rhyddhad Treth ar gyfer Buddsoddiad Cymunedol

I fod yn gymwys am Ryddhad Treth ar gyfer Buddsoddiad Cymunedol (CITR) rhaid bod gennych dystysgrif rhyddhad treth ar gyfer eich buddsoddiad. Rhowch y swm rydych yn ei hawlio ym mlwch 3.

I gael rhagor o wybodaeth am CITR, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS237'.

### Blwch 4 Taliadau blynyddol a wnaed

Rhaid i chi gadw treth o 20% yn ôl o'r swm a dalwch os gwnewch daliadau blynyddol o dan ymrwymiad cyfreithiol o ganlyniad i'ch masnach neu'ch proffesiwn.

Rhowch y swm a dalwch mewn gwirionedd ym mlwch 4. Os ydych eisoes wedi hawlio'r swm hwn fel rhan o'ch treuliau busnes, rhowch y swm a daloch yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall' ar eich tudalennau 'Hunangyflogaeth (llawn)'.

**Enghraifft**

Mae ar Siwan £100 o ffioedd hawlfraint i AZ World am ddefnyddio'u mapiau yn ei gwaith. Mae'n cadw £20 (£100 x 20%) yn ôl ac yn talu £80 i AZ World. Mae hi'n rhoi £80 ym mlwch 4.

### Blwch 5 Llog ar fenthyciad cymhwysol sy'n daladwy yn y flwyddyn

Gallwch hawlio rhyddhad treth am log yn daladwy ar fenthyciad neu drefniant ariannu amgen a ddefnyddiwyd i brynu:

- cyfranddaliadau mewn, neu i ariannu, cwmni caeedig
- buddiant mewn, neu i ariannu, partneriaeth (os ydych yn hawlio rhyddhad ar gyfer buddsoddiadau mewn partneriaethau gosod eiddo, mae'n rhaid i chi ddarllen Taflen Gymorth 340)
- offer neu beiriannau ar gyfer eich gwaith – peidiwch â hawlio hyn os ydych eisoes wedi ei ddidynnu fel traul y busnes

Mae'r terfyn ar ryddhad Treth Incwm yn cyfyngu cyfanswm y rhyddhad ar log ar fenthyciad cymwys ac ambell ryddhad arall ym mhob blwyddyn i'r uchaf o £50,000 a 25% o'ch 'cyfanswm incwm wedi'i addasu'.

> I gael rhagor o wybodaeth am log ar fenthyciad cymwys, ewch i www.gov.uk a chwliwch am 'HS340'.
>
> I gael rhagor o wybodaeth am hawlio colledion a chyfrifo cyfanswm eich incwm wedi'i addasu, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS204'.

### Blwch 6 Rhyddhad masnach ôl-derfynu a rhai colledion penodol eraill

Os daeth eich busnes i ben ar ôl 5 Ebrill 2015, gall rhyddhad treth fod ar gael ar gyfer y canlynol:

- treuliau ôl derfynu megis:
  - cyweirio gwaith neu nwyddau diffygiol neu yswirio rhagddynt
  - dyled a ryddhawyd o dan drefniant ffurfiol
- colledion cyflogaeth flaenorol, er enghraifft, rhwymedigaethau neu gostau a dalwyd gennych
- colledion cyn corffori

Rhowch y cyfanswm, llai unrhyw ad-daliadau, ym mlwch 6. Os, yn eithriadol, rydych yn hawlio rhyddhad yn erbyn enillion cyfalaf, rhowch y manylion ym mlwch 19 ar dudalen TR 7 eich Ffurflen Dreth.

> I gael rhagor o wybodaeth am golledion cyn-gorffori, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS227'.

### Blwch 7 Taliadau cynhaliaeth (uchafswm £3,640)

Llenwch y blwch hwn dim ond os ydych chi neu eich cyn briod neu bartner sifil wedi eich geni cyn 6 Ebrill 1935. Peidiwch â rhoi unrhyw beth ym mlwch 7 os oedd y ddau ohonoch wedi eich geni ar ôl y dyddiad hwn.

Os ydych yn talu i gynnal eich cyn briod neu bartner sifil, neu eich plentyn, gallwch hawlio rhyddhad treth ar 10% ar eich taliadau hyd at £3,640 os gwneir y taliadau o dan:

- gorchymyn llys
- asesiad yr Asiantaeth Cynnal Plant (CSA)
- cytundeb ysgrifenedig

Rhaid i chi fodloni'r 4 amod canlynol:

- gwneir y gorchymyn llys, asesiad yr Asiantaeth Cynnal Plant neu gytundeb ysgrifenedig o dan gyfreithiau un o'r canlynol – Y Deyrnas Unedig, Yr Almaen, Awstria, Bwlgaria, Cyprus, Denmarc, Yr Eidal, Estonia, Y Ffindir, Ffrainc, Gwlad Belg, Gwlad Groeg, Gwlad yr Iâ, Gwlad Pwyl, Hwngari, Yr Iseldiroedd, Iwerddon, Latfia, Liechtenstein, Lithwania, Lwcsembwrg, Malta, Norwy, Portiwgal, Rwmania, Sbaen, Slofacia, Slofenia, Sweden neu'r Weriniaeth Tsiec
- caiff y taliadau eu gwneud i'r priod rydych wedi gwahanu oddi wrtho/wrthi neu eich cyn briod neu bartner sifil hyd yn oed os cânt eu talu drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau neu'r Social Security Agency yng Ngogledd Iwerddon
- nid yw eich cyn briod wedi ailbriodi neu nid yw eich cyn bartner sifil wedi ffurfio partneriaeth sifil arall (bydd y taliadau a wnaethoch hyd at ddyddiad yr ailbriodas neu ffurfio'r bartneriaeth sifil yn gymwys am ryddhad)
- mae'r taliadau ar gyfer ei gynhaliaeth ef/chynhaliaeth hi ei hun

Gallwch hefyd hawlio rhyddhad os ydych yn bodloni'r amod cyntaf ac rydych yn talu cynhaliaeth ar gyfer eich plentyn neu blentyn rydych yn trin fel un o'r teulu sydd o dan 21. Rhowch y swm a dalwyd gennych, hyd at £3,640, ym mlwch 7.

### Blwch 8 Taliadau i undeb llafur ac ati ar gyfer budd-daliadau marwolaeth

Os yw rhan o'ch tanysgrifiad i undeb llafur yn rhoi'r hawl i chi gael pensiwn, yswiriant bywyd neu fudd-daliadau angladd, gallwch hawlio rhyddhad treth ar hanner y swm sy'n darparu'r budd-daliadau. Rhowch y swm hwn, hyd at £100, ym mlwch 8.

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, siaradwch â chynrychiolydd eich undeb.

### Blwch 9 Rhyddhad a hawlir ar ddosbarthiad cymhwysol pan adbrynir cyfranddaliadau neu warantau bonws

Telir cyfranddaliadau a gwarantau bonws gyda chredyd treth. Os ydych yn talu treth ar y gyfradd uwch, bydd yn rhaid i chi dalu mwy o dreth ar yr incwm hwn.

I wneud yn siŵr nad ydych yn talu treth ddwywaith, nodwch swm y dreth gyfradd uwch a dalwyd, nid y gyfradd is na'r credyd treth, ym mlwch 9.

### Blwch 10 Tanysgrifiadau ar gyfer cyfranddaliadau o dan y Cynllun Buddsoddiad Menter 'Seed'

Gallwch hawlio rhyddhad treth os cawsoch ffurflen SEIS3, '*Seed Enterprise Investment Scheme*', gan y cwmni y gwnaethoch fuddsoddi ynddo. Rhowch swm y tanysgrifiadau rydych yn hawlio rhyddhad arno, hyd at £100,000, ym mlwch 10. Rhaid i chi hefyd roi manylion i ni am bob buddsoddiad ym mlwch 19 ar dudalen TR 7 eich Ffurflen Dreth.

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS393'.

### Blwch 11 Rhyddhad Treth am Fuddsoddiad Cymdeithasol

Gallwch hawlio Rhyddhad Treth am Fuddsoddiad Cymdeithasol (SITR) os cawsoch SITR3, *'Social Investment Tax Relief Certificate and claim to relief'*.

Mae rhyddhad ar gael ar gyfradd o 30% o'r swm a fuddsoddir, hyd at uchafswm buddsoddiad blynyddol o £1 miliwn. Rhowch y swm y gwnaethoch ei fuddsoddi, hyd at £1 miliwn, ym mlwch 11.

Mae'n rhaid i chi hefyd roi manylion i ni ynghylch pob buddsoddiad ym mlwch 19 ar dudalen TR 7 eich Ffurflen Dreth.

### Blwch 12 Llog ar fenthyciad na ellir ei ddidynnu o fuddsoddiadau i bartneriaethau gosod eiddo

Gallwch hawlio rhyddhad treth ar gyfer y gost o gael benthyciad, neu ar gyfer trefniant ariannol arall a llog sy'n daladwy ar fenthyciad, neu ar gyfer taliadau ariannol eraill ar gyfer buddsoddiadau i bartneriaethau gosod eiddo i'r graddau y mae'r bartneriaeth yn defnyddio'r arian hwnnw ar gyfer unrhyw ran o'i busnes eiddo sy'n ymwneud ag eiddo preswyl.

Dylid cynnwys y gost o gael benthyciad neu'r trefniant ariannol arall, a swm y llog ar y benthyciad neu'r taliadau ariannol eraill, ym mlwch 12.

> ℹ I gael rhagor o wybodaeth am log ar fenthyciad cymwys, ewch i www.gov.uk a chwliwch am 'HS340'.

## Lwfans Pâr Priod

Llenwch yr adran hon dim ond os cawsoch chi neu eich priod neu bartner sifil eich geni cyn 6 Ebrill 1935. Peidiwch â llenwi'r adran hon os cafodd y ddau ohonoch eich geni ar ôl y dyddiad hwn.

Os cawsoch chi neu eich priod neu eich partner sifil eich geni cyn 6 Ebrill 1935, byddwch yn cael lwfans sy'n cynnwys dau swm:

- isafswm gwerth hyd at £364, ynghyd â
- swm mewn perthynas ag incwm sy'n werth hyd at £577.50, ar gyfer:
  - — y gŵr os oeddech yn briod cyn 5 Rhagfyr 2005 neu
  - — y person (gŵr, gwraig neu bartner sifil) gyda'r incwm uchaf, os gwnaethoch briodi neu ffurfio partneriaeth sifil ar neu ar ôl 5 Rhagfyr 2005

Os ydych wedi hawlio Lwfans Pâr Priod eisoes yn y flwyddyn dreth o 6 Ebrill 2022 a 5 Ebrill 2023 a'ch bod yn ailbriodi neu'n ffurfio partneriaeth sifil, mae'n well parhau i hawlio ar gyfer eich cyn briod neu bartner sifil fel arfer. Os yw hyn yn gymwys i chi, rhowch enw eich cyn briod neu bartner sifil ym mlwch 1 a'i ddyddiad geni ym mlwch 5.

### Blwch 1 Enw llawn eich priod neu eich partner sifil

Llenwch y blwch hwn dim ond os yw'r naill neu'r llall o'r canlynol yn wir:

- os mai chi yw'r gŵr a'ch bod wedi priodi cyn 5 Rhagfyr 2005
- os mai chi yw'r person sydd â'r incwm uchaf a'ch bod wedi priodi neu ffurfio partneriaeth sifil ar neu ar ôl 5 Rhagfyr 2005

### Blwch 2 Ei ddyddiad/dyddiad geni os yw ef/hi yn hŷn na chi

Llenwch y blwch hwn dim ond os yw'ch priod neu eich partner sifil yn hŷn na chi, ac mae'r naill neu'r llall o'r canlynol yn wir:

- chi yw'r gŵr a'ch bod wedi priodi cyn 5 Rhagfyr 2005
- chi yw'r person sydd â'r incwm uchaf a'ch bod wedi priodi neu ffurfio partneriaeth sifil ar neu ar ôl 5 Rhagfyr 2005

### Blwch 3 Rhowch 'X' yn y blwch os ydych eisoes wedi cytuno y gall hanner isafswm y lwfans gael ei roi i'ch priod neu eich partner sifil

Rhowch 'X' yn y blwch hwn dim ond os ydych eisoes wedi rhoi gwybod i ni eich bod am rannu hanner isafswm y lwfans ac wedi llenwi ffurflen 18, *'Transferring the Married Couple's Allowance'*, cyn dechrau'r flwyddyn dreth

### Blwch 4 Rhowch 'X' yn y blwch os ydych eisoes wedi cytuno y gall holl isafswm y lwfans gael ei roi i'ch priod neu eich partner sifil

Rhowch 'X' yn y blwch hwn dim ond os ydych eisoes wedi rhoi gwybod i ni eich bod am drosglwyddo isafswm y lwfans i gyd ac wedi llenwi ffurflen 18, *'Transferring the Married Couple's Allowance'*, cyn dechrau'r flwyddyn dreth.

### Blwch 6 Rhowch 'X' yn y blwch os ydych eisoes wedi cytuno bod hanner isafswm y lwfans i gael ei roi i chi

Rhowch 'X' yn y blwch hwn dim ond os ydych wedi llenwi ffurflen 18, *'Transferring the Married Couple's Allowance'* cyn dechrau'r flwyddyn dreth, ac mae'r naill neu'r llall o'r canlynol yn wir:

- chi yw'r wraig a'ch bod wedi priodi cyn 5 Rhagfyr 2005
- chi yw'r person sydd â'r incwm isaf a'ch bod wedi priodi neu ffurfio partneriaeth sifil ar neu ar ôl 5 Rhagfyr 2005

**Blwch 7  Rhowch 'X' yn y blwch os ydych eisoes wedi cytuno bod holl isafswm y lwfans i gael ei roi i chi**

Rhowch 'X' yn y blwch hwn dim ond os ydych wedi llenwi ffurflen 18, *'Transferring the Married Couple's Allowance'* cyn dechrau'r flwyddyn dreth, ac mae'r naill neu'r llall o'r canlynol yn wir:

- chi yw'r wraig a'ch bod wedi priodi cyn 5 Rhagfyr 2005
- chi yw'r person sydd â'r incwm isaf a'ch bod wedi priodi neu ffurfio partneriaeth sifil ar neu ar ôl 5 Rhagfyr 2005

**Blwch 8  Enw llawn eich priod neu eich partner sifil**

Llenwch y blwch hwn dim ond os ydych yn rhoi 'X' ym mlwch 6 neu flwch 7 a bod y naill neu'r llall o'r canlynol yn wir:

- chi yw'r wraig a'ch bod wedi priodi cyn 5 Rhagfyr 2005
- chi yw'r person sydd â'r incwm isaf a'ch bod wedi priodi neu ffurfio partneriaeth sifil ar neu ar ôl 5 Rhagfyr 2005

**Blwch 9  Dyddiad y briodas neu'r bartneriaeth sifil**

Os gwnaethoch briodi neu ffurfio partneriaeth sifil rhwng 6 Ebrill 2022 a 5 Ebrill 2023, gallwch hawlio 1/12fed o'r Lwfans Pâr Priod ar gyfer pob mis o'ch priodas neu bartneriaeth sifil.

## Yr hyn sy'n weddill o'r Lwfans Pâr Priod

Os nad ydych yn talu treth, neu os nad yw eich incwm yn ddigon uchel i ddefnyddio'r cyfan o'ch Lwfans Pâr Priod, gallwch drosglwyddo unrhyw lwfans nas defnyddiwyd i'ch priod neu bartner sifil os yw ef/hi yn talu treth.

Bydd yn rhaid i chi lenwi ffurflen '575(T)' os hoffech drosglwyddo unrhyw lwfansau Treth Incwm sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn dreth.

> I gael copi o ffurflen 575(T), ewch i www.gov.uk a chwiliwch am '575(T)', neu ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900.

**Blwch 10  Rhowch 'X' yn y blwch os ydych am gael yr hyn sy'n weddill o lwfans eich priod neu eich partner sifil**

Rhowch 'X' yn y blwch hwn dim ond:

- os mai chi yw'r wraig a'ch bod wedi priodi cyn 5 Rhagfyr 2005
- os mai chi yw'r person sydd â'r incwm isaf a'ch bod wedi priodi neu ffurfio partneriaeth sifil ar neu ar ôl 5 Rhagfyr 2005

Os rhowch 'X' yn y blwch hwn, mae'n rhaid i chi roi enw a rhif Yswiriant Gwladol eich priod neu eich partner sifil ym mlwch 19 ar dudalen TR 7 eich Ffurflen Dreth. Peidiwch â rhoi ei enw/henw ym mlwch 8.

**Blwch 11 Rhowch 'X' yn y blwch os ydych am i'ch priod neu eich partner sifil gael yr hyn sy'n weddill o'ch lwfans**

Rhowch 'X' yn y blwch hwn dim ond:

- os mai chi yw'r gŵr a'ch bod wedi priodi cyn 5 Rhagfyr 2005
- os mai chi yw'r person sydd â'r incwm uchaf a'ch bod wedi priodi neu ffurfio partneriaeth sifil ar neu ar ôl 5 Rhagfyr 2005

Os ydych wedi rhoi 'X' yn y blwch hwn, gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi blwch 1. Rhowch enw a rhif Yswiriant Gwladol eich priod neu bartner sifil ym mlwch 19 ar dudalen TR 7 eich Ffurflen Dreth.

# Gwybodaeth arall

## Colledion Treth Incwm a therfyn ar ryddhad Treth Incwm

**Blwch 1  Colledion blynyddoedd cynharach**

Os ydych am ddefnyddio colledion incwm eraill yn y DU a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd cynharach yn erbyn eich 'Incwm trethadwy arall', blwch 17 ar dudalen TR 3 eich Ffurflen Dreth rhowch y swm ym mlwch 1.

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS325'.

**Blwch 2  Cyfanswm y colledion nas defnyddiwyd a gariwyd ymlaen**

Os ydych am gario unrhyw golledion incwm ymlaen i flwyddyn ddiweddarach, nodwch y swm ym mlwch 2. Dylid cynnwys:

- unrhyw golled ar gyfer y flwyddyn hon na allwch ei osod yn erbyn y swm ym mlwch 17 ar dudalen TR 3 eich Ffurflen Dreth
- unrhyw golledion caniataol nas defnyddiwyd a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd cynharach

**Blwch 3  Rhyddhad nawr ar gyfer colledion masnachu neu golledion cyfalaf penodol ar gyfer 2023 i 2024**

Rhowch swm y colledion masnachu rydych yn hawlio rhyddhad ar eu cyfer, neu golledion cyfalaf penodol, ar gyfer y flwyddyn dreth 2023 i 2024, ym mlwch 3. Rhowch y flwyddyn dreth rydych am ddefnyddio'r golled yn ei herbyn ym mlwch 5.

Mae'r hawliad ar gyfer y flwyddyn dreth ddiweddarach 2023 i 2024, nid y flwyddyn dreth gynharach, er enghraifft, 2022 i 2023. Cyfrifir swm y rhyddhad gan ddefnyddio'r incwm, yr elw neu'r enillion o'r flwyddyn dreth gynharach ac fel arfer caiff ei osod yn erbyn treth arall sy'n ddyledus neu a ad-dalwyd fel y bo'n briodol. Rhowch fanylion llawn eich hawliad yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', sef blwch 19 ar dudalen TR7 eich Ffurflen Dreth.

> I gael cymorth i gyfrifo swm y rhyddhad treth, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'SA110 Nodiadau', a darllenwch dudalen TCSN24 o'r nodiadau Crynodeb o'r cyfrifiad treth (2023).

**Blwch 4  Nodwch swm y rhyddhad a ddangosir ym mlwch 3 nad yw'n agored i'r terfyn ar ryddhad Treth Incwm**

Mae swm y rhyddhad treth y gallwch ei hawlio yn erbyn eich incwm bob blwyddyn yn cael ei gyfyngu i'r uchaf o £50,000 neu 25% o'ch cyfanswm incwm wedi'i addasu. Nid yw rhai rhyddhadau yn ddarostyngedig i'r terfyn.

> I gael rhagor o wybodaeth am sut i hawlio colledion a chyfrifo eich cyfanswm incwm wedi'i addasu, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS204'.

**Blwch 6  Swm rhoi trwy'r gyflogres**

Os caiff rhoddion i elusennau eu tynnu o'ch cyflog cyn i'ch cyflog gael ei drethu, yna gwneir y taliadau hynny o dan y cynllun Rhoi Trwy'r Gyflogres. Nodwch gyfanswm y rhoddion i elusennau a dynnwyd o'ch cyflog ym mlwch 6. Dangosir yr hyn a daloch bob mis ar eich slipiau cyflog.

Os bydd angen i chi weithio allan cyfanswm eich incwm wedi'i addasu, adiwch y taliadau hyn at y ffigur cyflog sydd ar eich P60.

## Taliadau treth a godir ar gynilion pensiwn

**Blychau 7 i 18**

Dylai gweinyddwr eich cynllun pensiwn fod wedi rhoi i chi neu'ch ymgynghorydd treth y rhan fwyaf o'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i lenwi blychau 7 i 18.

Mae blychau 7 i 14 ar gyfer cynlluniau pensiwn cofrestredig yn y DU **a** chynlluniau pensiwn dramor. Mae blychau 15, 16 ac 18 ar gyfer cynlluniau pensiwn tramor yn unig.

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS345'.

## Cynlluniau arbed treth

**Blwch 19  Cyfeirnod y cynllun (SRN) neu gyfeirnod yr hyrwyddwr (PRN)**

Rhowch gyfeirnod y cynllun (SRN) ym mlwch 19.

Byddwch wedi cael eich SRN:

- gan ddarparwr y cynllun ar ffurflen AAG6, *'Disclosure of Tax Avoidance Scheme – Notification of Scheme Reference Number'*
- yn uniongyrchol gan Gyllid a Thollau EF (CThEF)

Does dim rhaid i chi nodi'r SRN ym mlwch 19 os anfonwyd ef atoch gan eich cyflogwr yn rhinwedd eich swydd fel cyflogai.

Rhowch eich cyfeirnod yr hyrwyddwr (PRN) ym mlwch 19. Os defnyddiwyd cynllun arbed treth gennych drwy hyrwyddwr wedi'i fonitro, byddwch wedi cael eich PRN gan:

- yr hyrwyddwr
- cyfryngwr yr hyrwyddwr
- cleient arall i'r hyrwyddwr

Os oes gennych fwy nag un SRN neu PRN, rhowch bob rhif ar linell ar wahân ym mlwch 19.

Os oes gennych fwy na 3 SRN neu PRN, defnyddiwch ffurflen AAG4, *'Disclosure of avoidance scheme'* er mwyn rhoi gwybod i ni am y SRN, neu ffurflen AAG4(PRN) er mwyn rhoi gwybod i ni am y PRN.

I lawrlwytho'r ffurflenni, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'AAG4'.

Nid yw CThEF ar unrhyw adeg yn cymeradwyo cynlluniau arbed treth. Os nad ydych yn rhoi gwybod i ni am y SRN neu'r PRN ar gyfer cynllun neu gytundeb, bydd rhaid i chi dalu cosb.

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/disclosure-of-tax-avoidance-schemes-overview

**Blwch 20  Y flwyddyn dreth y disgwylir i'r manteision godi ynddi, er enghraifft 2021 i 2022**

Os cododd fantais dreth neu fantais cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn ystod blwyddyn dreth 2022 i 2023 rhowch 2022-23 ym mlwch 20. Os na chododd fantais yn 2022 i 2023 ond disgwylir i fantais godi yn ystod blwyddyn sydd i ddod, rhowch y flwyddyn gynharaf sydd i ddod y disgwylir i'r fantais godi ynddi ym mlwch 20, er enghraifft 2023-24.

Os ydych wedi ei gynnwys ar Ffurflen Dreth flaenorol, rhaid i chi barhau i roi gwybod amdano tan nad oes mantais dreth (er enghraifft, tan fo'r colledion i gyd o'r cynllun wedi cael eu defnyddio).

## Rhagor o gymorth os bydd ei angen arnoch

I gael cop  au o unrhyw Ffurflenni Treth neu daflenni cymorth, ewch i www.gov.uk/ffurflenni-a-thaflenni-hunanasesiad

Gallwch ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900 i gael help gyda'ch Ffurflen Dreth.

> Mae gennym ystod o wasanaethau ar gyfer pobl anabl, gan gynnwys arweiniad mewn Braille, ar dâp sain ac mewn print bras. Mae'r rhan fwyaf o'n ffurflenni hefyd ar gael mewn print bras. Ffoniwch ein llinellau cymorth am fwy o wybodaeth.

Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar yr hawl i apelio.